**Cyd-gyfarfod y Cynghorau**

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod a gynhaliwyd am 10.00a.m. ddydd Iau 30 Medi 2021 yn Neuadd Vivian, Canolfan Dylan Thomas, Abertawe

Yn bresennol:

Yr Hybarch Randolph Thomas (Cadeirydd)
Tony Ball
Pam Berry
Tania Davies
Margaret Evans
Eifion Griffiths
Yr Athro Medwin Hughes
Dr Conny Matera Rogers
Rowland Jones
Vanessa Liverpool
Liam Powell
Victoria Provis
Dr Stuart Robb
Geraint Roberts
Nigel Roberts
Dr Liz Siberry
Maria Stedman
Dr Kerry Tudor
Deris Williams

Hefyd yn bresennol:

Justin Albert
Siwan Davies
Sarah Clark, Clerc y Cyngor
Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor
Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)
Shône Hughes, Pennaeth Staff
Steve Baldwin, Cyfarwyddwr Adnoddau a Chynllunio Busnes
Gavin Bessant, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol
Jane O’Rourke, Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau Dynol
Catrin Beard (Cyfieithydd)
Margaret Williams (Ysgrifennydd)

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| 21.48<br>Ymddiheuriadau am absenoldeb | Derbyniwyd YMDDIHEURIADAU am absenoldeb gan Andrew Curl, Arwel Ellis Owen, Mathew Peake ac Andrew Cornish. | |
| 21.49<br>Datganiadau o fuddiannau | DERBYNIODD y Cynghorau y gofrestr lawn o fuddiannau aelodau 2021/22 (JC0107). | |
| 21.50<br>Penodi aelodau annibynnol newydd | CYMERADWYODD y Cynghorau argymhellion canlynol y panel cyfweld am aelodau annibynnol newydd, a benodwyd drwy'r Pwyllgor Enwebiadau a Llywodraethu (JCO108).<br><br>(a) Argymhellwyd i'w benodi:<br>• i Gyngor PCYDDS o 1 Hydref 2021 tan 31 Gorffennaf 2025<br>• i Gyngor PC yn aelod cyfetholedig o 1 Hydref 2021 tan 31 Gorffennaf 2022 ac yn aelod penodedig o 1 Awst 2022 tan 31 Gorffennaf 2025<br><br>Justin Albert OBE<br>Siwan Davies<br><br>(b) Argymhellwyd i'w benodi:<br>• i Gyngor PCYDDS o 1 Hydref 2021 tan 31 Gorffennaf 2025<br><br>Uzo Iwobi OBE<br>Emlyn Schiavone | |
| | Ymunodd Justin Albert OBE a Siwan Davies â'r cyfarfod fel sylwedyddion.<br><br>Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Uzo Iwobi ac Emlyn Schiavone. | |
| 21.51<br>Cyflwyniad gan yr Is-Ganghellor | DERBYNIODD y Cynghorau gyflwyniad gan yr Is-Ganghellor.<br><br>Amlinellodd yr Is-Ganghellor y prif flaenoriaethau i'r Brifysgol yn 2021/22 yng nghyd-destun polisi Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DG. Nododd bwysigrwydd ailddatgan natur unigryw PCYDDS, sefydlu cydnerthedd ac arlwy cyfnerthedig dod ag AU ac AB at ei gilydd. | |

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | Cyfeiriodd yr Is-Ganghellor at 2022 a dathliadau'r Daucanmlwyddiant gan gynnig mai 2022 oedd y flwyddyn y byddai'r Brifysgol yn sefydlu platfform ar gyfer seilwaith y dyfodol i wasanaethu pobl Cymru.<br><br>Cefnogodd yr aelodau weledigaeth yr Is-Ganghellor gan ganmol cynnydd y Brifysgol. | |
| 21.52<br>Pennu'r parodrwydd i dderbyn risg | YSTYRIODD y Cynghorau eu parodrwydd i dderbyn risg am 2021/22 (JCO109).<br><br>Roedd yr Uwch Gyfarwyddiaeth wedi gwneud asesiad rhagarweiniol o'r parodrwydd i dderbyn risg y gellid ei fabwysiadu am flaenoriaethau sefydliadol 2021/22, fel y'i nodwyd yn *Agenda 2021/22*, gan ddefnyddio'r offeryn asesu a gyflwynwyd.<br><br>Mewn trafodaeth, holodd aelodau ynghylch y dull ceidwadol a gynigiwyd yn achos diwylliant a gwerthoedd. Eglurodd yr Is-Ganghellor fod hyn er mwyn sicrhau na fyddai unrhyw risgiau'n cael eu cymryd parthed y Gymraeg. Nododd yr aelodau hefyd y byddai'n ddefnyddiol ar gyfer asesiadau'r dyfodol ganiatáu mwy o fanylion o ran arloesi.<br><br>CYMERADWYODD y Cynghorau argymhelliad swyddogion ynghylch y parodrwydd i dderbyn risg. | Clerc i nodi hyn am asesiadau'r dyfodol |
| 21.53<br>Diwylliant sefydliadol | Yng nghyd-destun eu hymrwymiadau dan y Siarter Llywodraethiant ar gyfer Prifysgolion yng Nghymru, YSTYRIODD y Cynghorau yr adroddiad data cyntaf ar ddiwylliant sefydliadol (JCO110).<br>Nododd aelodau fod yr adroddiad yn cynnig diffiniad gweithio o'r diwylliant dymunol i'w ystyried ac yn tynnu at ei gilydd ddata o ystod o ffynonellau. Gofynnwyd i'r Cynghorau ystyried y diffiniad gweithio; ystyried a ydy'r data a gyflwynwyd yn awgrymu bod unrhyw fylchau rhwng y diwylliant gwirioneddol a'r diwylliant dymunol; a phennu, os ydy'n berthnasol, y camau yr oedd eu hangen i gau'r bwlch er mwyn cyflawni'r diwylliant dymunol. Hefyd roedd swyddogion yn chwilio am gyngor ynghylch cynnwys a ffocws adroddiadau'r dyfodol.<br>Yn dilyn trafodaeth ragarweiniol, CYTUNODD y Cynghorau y dylid trefnu cyfarfod i roi sylw â ffocws i'r mater hwn. | |

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | Atgoffwyd aelodau fod y Siarter Llywodraethiant hefyd yn cynnwys ymrwymiad gan gyrff llywodraethu, yn eu hadroddiadau blynyddol, i esbonio sut yr ymgysylltwyd â rhanddeiliaid allweddol yn ystod y flwyddyn. Roedd Camm wedi rhagweld y byddai'r gwaith hwn yn deillio o 'good practice guide to ensure the effective engagement with key stakeholders and consideration of their views in the development of university strategy'. Roedd gwaith wedi dechrau'n ddiweddar ar ddatblygu'r canllawiau. Cytunodd yr aelodau y byddai angen rhoi ystyriaeth i ddull y Brifysgol o goladu data rhanddeiliaid maes o law. | Clerc i symud ymlaen â hyn |
| 21.54<br>Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf a gynhaliwyd 08/07/2021 | CYMERADWYODD y Cynghorau Gofnodion Anghyfyngedig y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2021 (JCO111). | |
| 21.55<br>Cymeradwyo cofnodion Cyfyngedig y cyfarfod a gynhaliwyd 8 Gorffennaf 2021 | CYMERADWYODD y Cynghorau Gofnodion Cyfyngedig y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Gorffennaf 2021 (JCO111). | |
| 21.56<br>Cylch Gorchwyl | DERBYNIODD y Cynghorau eu cylch gorchwyl (JCO112). | |
| 21.56<br>Cynllun gwaith y Cynghorau | CYMERADWYODD y Cynghorau eu cynllun gwaith ar gyfer 2021/22 (JCO113).<br><br>Adroddodd y Clerc y byddai adroddiad blynyddol y Senedd fel arfer yn cael ei gyflwyno i gyfarfod y Cynghorau ym mis Tachwedd. Fodd bynnag eleni byddai adroddiad y dadansoddiad adfyfyriol a oedd yn cael ei baratoi am adolygiad yr ASA yn cael ei gyflwyno yn ei le. | |
| 21.57<br>Adroddiad ar Gamau Gweithredu'r Cadeirydd | DERBYNIODD y Cynghorau yr adroddiad ar gamau gweithredu'r Cadeirydd ers y cyfarfod blaenorol (JCO114). | |
| 21.58<br>Datganiadau o fuddiannau | Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod. | |
| 21.59<br>Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf a chyfarfodydd y dyfodol | Dydd Iau 25/11/2021<br>Dydd Iau 27/01/2022<br>Dydd Mawrth 29/03/2022 a<br>Dydd Iau 31/03/2022 | |

| Eitem Agenda | Prif bwyntiau trafod | Cam gweithredu / penderfyniad |
|---|---|---|
| | Dydd Iau 07/07/2022 | |
| | | |

Terfynwyd y cyfarfod am 12.30